*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/12/2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Y Diweddaraf** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r cynnydd a wneir gan y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru tuag at ddiffinio a chyflawni'r set gyntaf o amcanion llesiant a fabwysiadwyd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r pedwar bwrdd yng Ngogledd Cymru wedi cyhoeddi eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant cyntaf ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Byrddau'n dal i gwrdd yn rheolaidd ac yn dal i weithio drwy is-grwpiau pynciol.

3 Mae'r cynlluniau llesiant yn nodi cyfanswm o 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru, a gellir grwpio'r blaenoriaethau yn fras dan 16 pennawd.

4 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio nawr tuag at gyflawni eu hamcanion er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni "nodau llesiant" a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar gyfer Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru tuag at osod a chyflawni eu hamcanion llesiant.

**CEFNDIR**

6 Yn Ebrill 2016, fe wnaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru.

7 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn aelod statudol o bob Bwrdd yn ei ardal. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru yn aelodau hefyd. Dan y Ddeddf, *rhaid* gwahodd rhai sefydliadau penodol i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd a *gellir* gwahodd rhai eraill i wneud.

8 Mae pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru, sef Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, a Gwynedd a Môn. Ers Mawrth 2016, y Prif Swyddog Tân yw'r cynrychiolydd a enwebwyd gan yr Awdurdod i fod ar y Byrddau.

9 Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y canlynol: asesu cyflwr llesiant yn eu hardaloedd, cyhoeddi eu hasesiadau llesiant cyntaf yn 2017; a'u cynlluniau llesiant cyntaf erbyn 3 Mai 2018, a hynny ar ôl mynd drwy nifer o gamau ymgysylltu a chymeradwyo i ddechrau.

10 Roedd yr asesiadau'n ystyried cryfderau ac asedau ardaloedd lleol, y bobl a'r cymunedau sy'n byw yno, a'r heriau a'r cyfleoedd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol. Gofynnwyd am adborth gan drigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr, a hynny ymhob rhan o Ogledd Cymru.

11 Drwy ddefnyddio'r asesiadau llesiant, roedd rhaid i'r Byrddau osod amcanion lleol gyda'r nod o gael cymaint o gyfraniad â phosibl i'r gwaith o gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn eu hardaloedd. Cyn cyhoeddi'r set gyntaf o gynlluniau llesiant lleol, roedd rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan yr aelodau statudol unigol a gan y Byrddau eu hunain.

12 Rhaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant. Gall yr amcanion llesiant sydd mewn cynlluniau llesiant lleol fod yr un amcanion ag y mae cyrff cyhoeddus unigol wedi penderfynu eu gosod, ond weithiau gall fod adegau pryd mae'r amcanion a osodir gan y cyrff cyhoeddus hyn yn flaenoriaethau cyffredin hefyd ar gyfer yr ardal. Dyna pryd mae disgwyl i'r Byrddau wneud y cyfraniad mwyaf drwy weithio ar y cyd heb ddyblygu'r gwaith da sy'n digwydd mewn partneriaethau a sefydliadau sy'n bodoli eisoes.

**GWYBODAETH**

13 Cafodd y fersiynau drafft terfynol o'r cynlluniau llesiant lleol eu cyflwyno i'r Aelodau ym mis Mawrth 2018 a chawsant gymeradwyaeth yr Awdurdod. Ni chafodd unrhyw newidiadau sylweddol eu gwneud i'r cynlluniau llesiant cyn eu cyhoeddi. Mae'r cynlluniau ar gael ar wefan eu Byrddau eu hunain.

14 Yn ôl dadansoddiad diweddar o gynlluniau llesiant y pedwar Bwrdd, roedd cyfanswm o 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru. Mae modd grwpio'r blaenoriaethau hyn dan 16 o benawdau allweddol, sef Cymunedol; Tai; Addysg; Addysg Iechyd; Iechyd; Dinasyddion Cyfrifol; Llesiant; Amgylchedd; Cyfrifoldeb Amgylcheddol; Prosiectau Amgylchedd Cymunedol; Twristiaeth; Economi; Seilwaith; Sgiliau ar gyfer Gwaith; Presgripsiynu Cymdeithasol; ac Iechyd Gweithlu.

15 Dyma'r meysydd pynciol y mae pob un o'r pedwar Bwrdd wedi eu nodi'n annibynnol fel y meysydd lle gallen nhw, yn realistig, gyfrannu at wneud gwelliant:

- **Gofal Iechyd**: trefniadaeth ffisegol ac ymarferol gwasanaethau Iechyd.
- **Addysg Iechyd**: addysgu pobl o bob oedran i fod yn wydn ac yn annibynnol o ran eu llesiant eu hunain, gyda chymorth presgripsiynau cymdeithasol a'r amgylchedd.
- **Dinasyddion Cyfrifol**: addysgu unigolion a chymunedau sut i fod yn ddiogel, cyfrifol a gwydn.
- **Cynllunio Cymunedol**: grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad/cynaliadwyedd eu cymunedau eu hunain, sy'n cynnwys prosiectau dan arweiniad y gymuned i gefnogi'r amgylchedd.
- **Tai**: mynediad at dai o ansawdd da i bawb.
- Er nad yw'r **Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd** wedi datblygu yn thema gref gyffredin o reidrwydd, mae cyfrifoldeb amgylcheddol a defnyddio'r amgylchedd fel rhywbeth sy'n galluogi llesiant, yn thema waelodol i'w hystyried. Mae llawer o'r farn mai'r dyma'r maes lle mae gan y Byrddau y cyfle mwyaf i wneud gwahaniaeth, ac mae Rhwydwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru wrthi'n llunio cynigion ar gyfer prosiect ar y Newid yn yr Hinsawdd, dan arweiniad Wrecsam a Chyfoeth Naturiol Cymru.

16 Mae pob Bwrdd wedi bod yn datblygu camau i fynd i'r afael â'r materion cymhleth a nodwyd fel blaenoriaethau o fewn y cynlluniau. Sefydlwyd gweithgorau i gyflawni'r blaenoriaethau, a chynhaliwyd gweithdai yn ystod yr haf a'r hydref i weithio â phartneriaid a chymunedau i ddatblygu a chytuno ar y camau nesaf. Crëwyd cynlluniau gwaith â therfynau amser, ac adroddir ynghylch y cynnydd yn rheolaidd i bob Bwrdd.

17 Bydd pob Bwrdd yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol 14 mis fan bellaf ar ôl i'r cynllun llesiant lleol cyntaf gael ei gyhoeddi. Y bwriad yw galluogi iddo adrodd ynghylch blwyddyn gyfan o weithgarwch. Rhaid i'r adroddiad nodi'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol mwyaf diweddar i gyflawni'r amcanion sydd yn y cynllun hwnnw.

18 Rhaid i gopi o bob adroddiad cynnydd blynyddol sy'n cael eu cyhoeddi gan y Byrddau gael eu hanfon i bwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol yn ogystal ag i Weinidogion Cymru, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Nid oes goblygiad uniongyrchol o ran cyflawni amcanion llesiant yr Awdurdod ei hun – mae'r cynlluniau llesiant lleol yn ymwneud ag amcanion llesiant y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Nid oes yr un o'r blaenoriaethau'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau tân ac achub. |
| Cyllideb | Ni wyddom am unrhyw oblygiadau ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y gofynnir am rywfaint o gyfraniadau ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Cyfreithiol | Cefnogi cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Staffio | Ni wyddom am unrhyw effaith ar y lefelau staffio, ond mae'n bosibl y bydd y gwaith o gynllunio a chyflawni'r amcanion llesiant yn golygu defnyddio adnoddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau, ond bydd effaith y camau penodol yn cael eu hasesu ar wahân. |
| Risgiau | Fel aelod statudol o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n darparu pedwar cynllun llesiant lleol yn cynnwys 74 o flaenoriaethau, mae'n bosibl y gallai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gael trafferth cymryd rhan ar y lefel briodol. |